



Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig.

16 Chwefror 2021

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

978-1-80082-870-4

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gronfa mynediad i swydd etholedig.

**Camau Gweithredu Gofynnol**

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**

**Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:  
Y Tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol  
e-bost:  
[LGD.DemocracyDiversityRemuneration@gov.wales](mailto:LGD.DemocracyDiversityRemuneration@gov.wales)

**Copïau Ychwanegol**

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb o ymatebion hwn a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Hefyd ar gael yn Saesneg yn:**

**URL**

## Cyflwyniad

Bydd creu Cymru fwy cyfartal, lle bydd pawb yn cael cyfle i gymryd rhan, cyrraedd eu llawn botensial a chyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus ac arloesol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynyddu amrywiaeth ym mhob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan weithredol mewn democratiaeth leol drwy sefyll am swydd etholedig. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i nodi ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn a chynyddu'r cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol chwarae rôl lawn wrth gefnogi a chynrychioli eu cymunedau.

## Ymgysylltu

Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o gyfnod ymgynghori deg wythnos a ddechreuodd ar 11 Tachwedd 2020 ac a ddaeth ben ar 20 Ionawr 2021. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Gallai'r ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau ar bapur, dros e-bost neu ar-lein, ac yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Yn ogystal, cynhaliodd Anabledd Cymru dri digwyddiad ymgysylltu ymgynghori rhithiol a fynychwyd (yn rhithiol) gan gyfanswm o 25 o bobl a drafododd y cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Mae'r cyfraniadau hyn wedi'u cynnwys yng nghyfanswm cyffredinol yr ymatebion.

Cafwyd cyfanswm o 48 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r math o ymatebwyr wedi'u rhannu fel a ganlyn:

Unigolyn	32
Cynghorau/Cynghorwyr	5
Sefydliad	11

## Crynodeb o'r Ymatebion

Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd. Nid yw'n ceisio cyfleu pob pwynt a wnaed gan ymatebwyr yn fanwl.

### C1. C1 Ar ba sail y dylai'r gronfa weithredu yn eich barn chi?

- Tystiolaeth feddygol o nam
- Hunanddiffinio fel anabl

Roedd 13% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i unigolion sy'n gwneud cais i'r gronfa ddarparu tystiolaeth feddygol o nam, tra bod 77% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r meini prawf fod yn seiliedig ar unigolion yn hunanddiffinio fel anabl. Ni ddewisodd y 10% arall y naill dull na'r llall.

Cododd yr ymatebwyr a oedd yn ffafrio'r dystiolaeth feddygol bryderon am uniondeb y system a'r angen i osgoi camddefnydd ohoni drwy gadarnhau dilysrwydd yr ymgeiswyr a oedd yn defnyddio cronfeydd cyhoeddus. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn pryderu ynghylch gofyn am dystiolaeth feddygol a'r posibilrwydd y gallai hyn fod yn ymwithol a bod yn rhwystr ychwanegol, gan annog unigolion sy'n ystyried sefyll am swydd etholedig i

beidio â gwneud hynny. Nododd llawer ohonynt hefyd fod y diffiniad o anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 wedi dyddio ac, am fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r Model Cymdeithasol o Anabledd, mai hwn ddylai fod yn sail ar gyfer y meini prawf mynediad.

## **C2. Ydych chi'n cytuno na ddylid rhoi terfyn ar y swm y gall pob unigolyn ei dderbyn o'r gronfa?**

Ydw	88%
Nac ydw	10%
Dim barn	2%

Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr y dylai lefel y cyllid a ddyrennir fod yn seiliedig ar angen unigol am y bydd gan bob ymgeisydd ofynion gwahanol. Teimlai nifer bach o ymatebwyr y gallai rhoi terfyn ar y dyraniadau cyllid olygu y gallai'r gronfa gefnogi mwy o ymgeiswyr.

## **C3. Ydych chi'n cytuno y dylai Anabledd Cymru ddarparu gwasanaeth cymorth ariannol i ymgeiswyr?**

Ydw	92%
Nac ydw	6%
Dim barn	2%

Roedd 92% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai Anabledd Cymru ddarparu gwasanaeth cymorth ariannol i ymgeiswyr. Fodd bynnag, roedd yn glir y dylai hyn ond fod yn wir lle roedd yr ymgeiswyr yn fodlon ar y dull hwn. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai angen gweithredu'n hyblyg er mwyn galluogi ymgeiswyr i reoli eu cymorth ariannol eu hunain pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

## **C5. Ydych chi'n cytuno na ddylai ymgeiswyr gael cymorth gan y gronfa hon ar ôl i ganlyniad yr etholiad roeddent yn ei sefyll gael ei gyhoeddi?**

Ydw	83%
Nac ydw	17%

Roedd 83% o'r ymatebwyr yn cytuno na ddylai ymgeiswyr gael cymorth gan y gronfa hon ar ôl i ganlyniad yr etholiad i'r sedd roeddent yn ymladd amdani gael ei gyhoeddi. Nododd ymatebwyr, pe bai'r unigolyn yn cael ei ethol, mai'r corff y byddai'n cael ei ethol iddo fyddai'n dod yn gyfrifol am ddarparu unrhyw gymorth y gall fod ei angen arno tra bydd mewn swydd etholedig. Roedd ymatebwyr yn pryderu a fyddai'r ymgeiswyr etholedig yn parhau i gael yr un lefel o gymorth gan eu cyngor neu blaid wleidyddol ar ôl iddynt gael eu hethol. Teimlai'r ymatebwyr y dylid sicrhau cyfnod pontio di-dor o fod yn ymgeisydd i fod yn aelod etholedig, a'i bod yn bwysig bod darpariaeth ddigonol ar gael i gefnogi aelodau ag anableddau yn ystod eu tymor mewn swydd. Teimlai nifer bach o'r ymatebwyr y dylai'r cymorth barhau drwy gydol y cyfnod pontio o fod yn ymgeisydd i aelod sydd wedi tyngu llw.

## **C5. Ydych chi'n cytuno, lle y bydd unigolyn wedi gorfod tynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl, y dylai penderfyniadau am adfer cyllid a ddyrennir eisoes gael eu hystyried ar sail unigol?**

Ydw	33%
Nac ydw	60%
Dim barn	6%

Roedd 33% o'r ymatebwyr yn cytuno, lle y bydd unigolyn wedi gorfod tynnu ei ymgeisyddiaeth yn ôl, y dylai penderfyniadau am adfer cyllid a ddyrennir eisoes gael eu hystyried yn ôl pob achos. Er nad oedd 60% yn cytuno y dylai cyllid gael ei dynnu yn ôl, roedd yr ymatebion yn nodi y byddai pob achos yn wahanol ac y gallai unrhyw benderfyniad sy'n arwain at adfer cyllid gael effaith andwyol ar iechyd a llesiant yr unigolyn dan sylw. Un o'r pwyntiau allweddol a wnaed gan yr ymatebwyr oedd y dylai'r meini prawf ymgeisio fod yn glir a nodi y dylai'r ymgeiswyr roi gwybod i Anabledd Cymru cyn gynted ag y byddant yn tynnu eu cais yn ôl, ac na ddylai unrhyw gyllid / cymorth pellach gael ei ddarparu ar ôl y dyddiad hwnnw.

**C6. A ddylid cadw at yr enw 'Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig' yn eich barn chi?**

Dylid	88%
Na ddylid	4%
Dim barn	8%

Roedd 88% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid cadw at yr enw 'Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig'. Teimlai'r ymatebwyr y byddai cadw enw'r gronfa yr un peth â rhannau eraill o'r DU yn peri llai o ddryswch ymhlith unigolion sy'n chwilio am gymorth.